Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi ayb.) 2023 drafft** |
| **DYDDIAD** | **6 Medi 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol ein bod yn rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023 drafft ("Rheoliadau 2023") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU).

Gwneir yr Offeryn Statudol dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, wrth arfer y pwerau a roddir o dan baragraff 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae nwyddau bwyd-amaeth a symudir i Ogledd Iwerddon, ac a gynhyrchir yno, yn ddarostyngedig i safonau anifeiliaid, planhigion, iechyd y cyhoedd, marchnata ac organig yr UE. Bydd y gwelliannau a wnaed i Brotocol Gogledd Iwerddon, fel y nodir yn Fframwaith Windsor, yn rhannol yn galluogi sefydlu Cynllun Symud Manwerthu a fydd yn galluogi nwyddau bwyd-amaeth sy'n cael eu manwerthu i symud o DU i Ogledd Iwerddon a bodloni safonau iechyd y cyhoedd, safonau marchnata a safonau organig. Bydd yn dal yn ofynnol i nwyddau fodloni safonau'r UE ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a safonau'r UE sy'n berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Bydd yr UE yn datgymhwyso offerynnau deddfwriaethol perthnasol yr UE ar gyfer y categorïau o nwyddau y gellir eu symud o dan y cynllun symud manwerthu, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n gosod safonau ar iechyd y cyhoedd, marchnata a nwyddau organig ar gyfer nwyddau yng Ngogledd Iwerddon, ac sy'n darparu'r sail gyfreithiol ar

gyfer eu gorfodi. Fodd bynnag, bydd pwerau gorfodi yn erbyn safonau'r UE yn parhau i fod ar gyfer nwyddau a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon. Felly, mae angen deddfwriaeth ar sail ddomestig i sicrhau bod nwyddau sy'n cael eu symud o dan y cynllun yn ddarostyngedig i safonau'r DU, a bod yr awdurdodau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn gallu gorfodi yn erbyn peidio â chydymffurfio â safonau'r DU.

Bydd y Cynllun Symud Manwerthu newydd hwn yn caniatáu masnachu nwyddau manwerthu penodedig rhwng y DU a Gogledd Iwerddon yn symlach ar gyfer aelodau'r cynllun, yn unol â'r cytundebau a wnaed gyda'r UE o dan Fframwaith Windsor.

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw darparu ar gyfer gorfodi safonau DU yng Ngogledd Iwerddon. Mae Rheoliadau 2023 yn rhan o gyfres ehangach o offerynnau statudol sy'n cyflawni trefniadau Fframwaith Windsor, gan gynnwys mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion y Cynllun Symud Manwerthu (sy'n peri risg i fioddiogelwch ynys Iwerddon ac a allai fel arall arwain at symud nwyddau'r Cynllun Symud Manwerthu ymlaen i'r UE).

Gosodwyd Rheoliadau 2023 gerbron Senedd y DU ar 4 Medi 2023 i ddod i rym ar 1 Hydref 2023.

**Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth ar y gyfraith sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i rai offerynnau statudol domestig sy'n berthnasol ym mhob un o wledydd Prydain. Nid yw'r offeryn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Pwrpas Rheoliadau 2023**

Pwrpas Rheoliadau 2023 yw diogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Gogledd Iwerddon ("GI") a'r Deyrnas Unedig ("DU"), yn dilyn cytundeb Fframwaith Windsor. Mae'r offeryn yn mynd i'r afael ag effaith Erthygl 1(2) i Reoliad arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd (cyfeirnod arfaethedig (UE) COM (2023)124) ar hyn o bryd yn unol â Fframwaith Windsor, mewn perthynas â rhai nwyddau manwerthu a symudwyd o DU i Ogledd Iwerddon a'u rhoi ar y farchnad yn Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu na fydd deddfwriaeth yr UE bellach yn berthnasol i'r nwyddau penodol hynny nac i sefydliadau Gogledd Iwerddon wrth drin y nwyddau hynny yn y DU lle mae gofynion Rheoliad arfaethedig yr UE yn cael eu bodloni.

Mae Rheoliadau 2023 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, pwrpas ac effaith y Rheoliadau ar gael yma:

[The Windsor Framework (Enforcement etc.) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)]

**Pam bod caniatâd wedi'i roi?**

Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud yr Offeryn hwn o ganlyniad i Gytundeb Fframwaith Windsor y daethpwyd iddo gan y DU a'r UE ac a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2023 ac i amddiffyn bioddiogelwch drwy gyflwyno mesurau amddiffynnol fel y Cynllun Symud Manwerthu newydd ar draws y DU.